TEITHIAU GWYRDD SIR BENFRO

Hwlffordd i Llangwm

O dref sirol fywiog Hwlffordd mae'r daith hon yn mynd ar hyd glannau tawel afon Cleddau Wen trwy goedwig sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn Little Milford a phentrefi glan afon Hook a Llangwm.

Mae'r daith yn 7.2m/11.5km, 3.5 - 4 awr. Mae'n mynd trwy goedwigoedd a thros ffyrdd, llwybrau troed, caeau a lonydd - arwynebau sydd ar y cyfan yn gadarn gyda rhai darnau mwdlyd. Mae'r esgynfeydd yn 191 metr/620 troedfedd, disgynfeydd yn 196metr/ 637troedfedd. Gwahaniaethau uchder 5m/16 troedfedd o gwymp. Ceir 8 giât, 21 camfa, 2 set o drawstiau rheilffyrdd a 5 pont droed. Gallai llanw'r gwanwyn effeithio ar y daith hon. Darllenwch y tablau llanw sydd ar gael mewn canolfannau croeso ac yn y rhan fwyaf o siopau papurau newydd lleol.

O Orsaf Hwlffordd cerddwch i'r dref gan groesi'r briffordd i'r maes parcio sydd o flaen swyddfeydd y cyngor. Cerddwch rhwng y swyddfeydd a thros y bont droed i Stryd y Cei.

HWLFFORDD S, B, BA, Ll, G, T, MP, PS. Tren, bysus 302, 308/309, 315, 322, 344, 349, 359, 381, 411, 412
Mae Castell canoloesol ac Eglwysi Normanaidd Hwlffordd yn tystio i hanes cynnar y dref. Yn 1648 gorchmynnodd Cromwell fod y castell yn cael ei ddifrodi a bod



Hwlffordd yn disodli Penfro fel tref sirol, rôl sydd ganddi hyd heddiw. Bu unwaith yn borthladd ffyniannus, ond mae'r cei glan yr afon heddiw yn rhan o ardal siopa brysur Hwlffordd, sy'n ymestyn drwy'r dref. Mae taflenni llwybr o'r dref ar gael.

Unwaith y dowch i Stryd y Cei, ewch heibio hen adeiladau'r warws, trowch i'r chwith a cherddwch lawr y stryd gan fynd dros y gamfa ar y chwith i mewn i dir y Priordy.

PRIORDY HWLFFORDD
Cafodd y Priordy Awstinaidd hwn o'r 13eg ganrif, a reolir gan CADW, ei gloddio'n ddiweddar ac ynddo ceir yr unig ardd ganoloesol a oroesodd ym Mhrydain.

Dilynwch gyfeirbwyntiau trwy dir y Priordy ac yn ôl dros y briffordd a'r rheilffordd, trowch i'r lôn ar y chwith, croeswch y bont ac ewch drwy'r gamfa ar y chwith. Dilynwch y cyfeirbwyntiau trwy'r caeau ac allan i'r tir glaswellt sy'n ffinio â'r afon. Dilynwch y llwybr troed mewn cylch ac yn ôl, i'r goedwig, gan ddringo i'r goedwig y tu ôl i'r chwarel a throwch i'r chwith. Dilynwch y llwybr am 200metr/218 llath gan fynd dros y gamfa ar y chwith sy'n arwain trwy'r goedwig. Ewch ymlaen trwy gaeau a choedwigoedd ac ar hyd blaen y traeth i'r bont droed dros y gilfach yn Black Hil. Trowch i'r chwith i'r llwybr marchogaeth ac i'r chwith eto gan ddilyn y cfeirbwyntiau i lawr i ymyl y traeth. O'r fan hon ceir golygfa dda ar hyd y dyffryn tuag at Little Milford a Hook. Mae'r cychod a'r llithrfeydd segur a'r bythynnod adfeiliedig yn dangos pa mor bwysig oedd y fasnach ar hyd yr afon a'r arfordir yn yr ardal hon yn y gorffennol. Dilynwch y llwybr sy'n arwain i'r goedwig ac i geuffordd. Dilynwch hon i ben y gilfach yn Little Milford a chroeswch y bont droed. Trowch i'r chwith i'r heol ac ewch yn ôl ar hyd y lôn tuag at Dŷ Little Milford gan droi i'r dde wrth y gatiau. Dilynwch y lôn am ryw 50metr/55llath i rai bythynnod a lawr tuag at y traeth. Ewch ar hyd y llwybr ar y dde yn arwain i'r coedwigoedd pîn ac yna'r llwybr cyntaf ar y chwith yn arwain i'r ffordd yn Hook ychydig cyn dod i'r New Anchor Inn.

HOOK S, B, PS. Bws 308/9
Cymuned fechan yw Hook ar lan y Daugleddau, a chwaraeodd ran bwysig yn niwydiant glo llwyddiannus Sir Benfro. Ni chaewyd pwll y pentref tan 1949.

Trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y ffordd, ar ôl 0.5m / 0.75km ewch ar hyd y llwybr ar y chwith yn arwain at yr hen gei. Trowch i'r dde ac ewch heibio ymyl y bwthyn i ddod i'r llwybr troed sy'n arwain at ymyl y traeth. Dilynwch hwn hyd at y bythynnod yn Underwood, a heibio talcen y bwthyn olaf gan droi i'r dde i lwybr.

Ar ben y llwybr trowch i'r chwith i'r heol. Dilynwch yr heol wrth iddi arwain at Fferm East Hook a dringwch y gamfa sydd o'ch blaen i'r llwybr marchogaeth wedi ei farcio. 250m/275 llath i lawr y lôn ewch ar hyd y llwybr wedi ei farcio i'r chwith, croeswch y gamfa i mewn i gae a throwch yn sydyn i'r dde i ddod o hyd i'r gamfa sy'n arwain at draeth Sprinkle Pill. Dilynwch y llwybr ar hyd ymyl y traeth hyd at lithrfa, ewch i fyny'r llithrfa i'r heol a throwch ar y chwith gan ddilyn arwyddion y llwybr Marchogaeth wrth i'r ffordd droi'n llwybr troed. Croeswch y bont droed ac ewch trwy'r giât i'r dde y tu draw i'r ffordd. Trowch i'r chwith a dilynwch linell y ffens at y cae i giât yn arwain at geuffordd. Parhewch ar hyd y geuffordd i'r heol. Trowch i'r dde a cherddwch ar hyd yr heol i Langwm.

LLANGWM S, B, T, PS. Bws 308/9
Credir iddo fod yn anheddiad Fflemaidd yn y canoloesoedd, ac yn hanesyddol bu'r pentref yn lleoliad i gloddio am lo a physgota wystrus a phenwaig.

Ymholiadau Rheilffordd Cenedlaethol 08457 48 49 50 Drafnidiaeth Gyhoeddus Cymru ar 0870 608 2608

Allwedd y cyfleusterau ar hyd y daith S - Siop, B - Bwyd a Diodydd, Ba - Banc, Ll - Llety, G - Gwybodaeth, T - Toiledau, MP - Maes Parcio, PS - Parcio Stryd

Dangosir y Pellter Cerdded a Chyfarwyddiadau mewn italeg. Argymhellir copi o Dalen Landranger 158 a 145 Arolwg Ordnans 1:50 neu Dalen Hamdden Awyr Agored 1:25 35 a 36 Arolwg Ordnans. Amcangyfrif yw pob pellter/amser a roddir.